Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Uchafbwyntiau o'r Arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru

2021/2022



Fran Wen, Ynys Alys, (Llun: Kirsten McTernan)

# Trosolwg 2021-2022

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu cyllid grant refeniw craidd i 67 o sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydau Cymru. Mae'r Portffolio'n cynnwys cerddoriaeth, cwmnïau drama a dawns, canolfannau celfyddydol a theatrau, orielau a sefydliadau celfyddydol cymunedol.

Mae llenwi'r arolwg yn amod grant ac mae'n ofynnol i sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru gyflwyno data ddwywaith y flwyddyn; ym mis Tachwedd (am weithgarwch Ebrill hyd Fedi) a Mehefin (Hydref hyd Fawrth). Mae'r arolwg yn bennaf yn casglu data ar y digwyddiadau celfyddydol a gynhyrchwyd a'r ymgysylltiad â'r cyhoedd a gafwyd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o weithgarwch ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, gyda chymariaethau â data o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Oherwydd y pandemig, a'r cau a'r canslo sy'n deillio o hynny, nid yw cymharu data â'r flwyddyn ariannol 20-21 yn gynrychiolaeth gywir o newid flwyddyn ar flwyddyn. Felly, lle bo'n bosibl, gwnaed cymariaethau hefyd â'r flwyddyn ariannol 19-20.



Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
(Llun: Yusef Bastawy)

# Blwyddyn mewn rhifau

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-2022, fe wnaeth sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydau Cymru gyflawni:

**4,476 o brosiectau**

gan arwain at

**2,862,837 o fynychwyr**

gan gymryd rhan mewn

**48,449 o ddigwyddiadau a sesiynau**

gyda

**12% o weithgarwch yn Gymraeg**

a

**68% yn digwydd wyneb yn wyneb**

o'i gymharu â

**32% yn ddigidol yn fyw neu wedi'i recordio ymlaen llaw**

Cefnogwyd y prosiectau hyn gan:

**6,800 o weithwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr llawrydd ac ymddiriedolwyr**

yn

**67 sefydliad ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru**

sy'n cynnwys

**1,397 o siaradwyr Cymraeg**

sy'n gweithio ar draws

**22 awdurdod lleol yng Nghymru**

gyda


**7% o sesiynau cyfranogol**


a

**24% o ddigwyddiadau sy'n ymgysylltu â grwpiau penodol**

# Digwyddiadau

- Yn 2021-2022, cynhaliwyd **10,676** o ddigwyddiadau sy'n gynnydd o **388%** ers blwyddyn ariannu 20-21 a gostyngiad o **40%** ers 19-20.
- Roedd dwy ran o dair (**66%**) o ddigwyddiadau yn ddangosiadau ffilm, ac yna **16%** o berfformiadau gan gwmnïau teithiol, **15%** o berfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno a **3%** o arddangosfeydd.
- Gwelwyd y cynnydd mwyaf flwyddyn ar flwyddyn mewn dangosiadau ffilm (**+474%** ers 20-21).









- Mae mynychu ddigwyddiadau wedi cynyddu gan **186%**, gan godi o **853,186** yn 20-21 i **2.4 miliwn** yn 21-22.
- Mewn **arddangosfeydd** gwelwyd y nifer uchaf o fynychiadau, gyda **992,270** o bobl (**+295%** o'i gymharu â 20-21).
- **Cynhyrchwyd perfformiadau gan gwmnïau teithiol** y nifer uchaf ond un o fynychiadau (**689,551**), y cynnydd uchaf ers 20-21 (**+416%**).

# Cyfranogiad

- Yn 2020-2021, roedd **37,773** o sesiynau cyfranogol a gynyddodd gan **41%** ers blwyddyn ariannu 20-21 a gostwng gan **49%** ers 19-20.
- Roedd tua thri chwarter (**77%**) o sesiynau cyfranogol wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, tra bod tua chwarter (**23%**) yn fynediad agored.
- Cynyddodd nifer y sesiynau plant a phobl ifanc gan **25%** flwyddyn ar flwyddyn, tra bod sesiynau mynediad agored wedi cynyddu gan **158%** ers 20-21.




- Mae mynychu sesiynau cyfranogol wedi gostwng gan **45%**, ers 20-21.
- Gwelwyd y gostyngiad mwyaf (**55%**) mewn sesiynau mynediad agored, tra bod mynychu sesiynau plant a phobl ifanc wedi gostwng gan **30%.**
- Gellid priodoli gostyngiad yn y ffigyrau mynychu i ddychwelyd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, gan ddod â llai o gyfranogwyr i mewn na digwyddiadau ar-lein/ digidol.

# Gwefan a chyfryngau

## Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol

- Facebook, Twitter ac Instagram yw'r platfformau a ddefnyddir amlaf ar gyfer adeiladu cynulleidfaoedd a chyfathrebu.
- Facebook, YouTube, Instagram a Snapchat yw'r platfformau a ddefnyddir amlaf ar gyfer cynnal cynnwys creadigol.

| | Adeiladu cynulleidfa a chyfathrebu | | Cynnal cynnwys creadigol | |
|---|---|---|---|---|
| **Platfform** | **Nifer y sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru** | **%** | **Nifer y sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru** | **%** |
| Facebook | 60 | 87 | 43 | 62 |
| Twitter | 59 | 86 | 36 | 52 |
| Instagram | 57 | 83 | 41 | 59 |
| SnapChat | 1 | 1 | 1 | 1 |
| YouTube | 34 | 49 | 46 | 67 |
| Vimeo | 11 | 16 | 14 | 20 |
| SoundCloud | 3 | 4 | 13 | 19 |
| Spotify | 4 | 6 | 6 | 9 |
| AM | 12 | 17 | 14 | 20 |
| TikTok | 4 | 6 | 3 | 4 |

| Platfform | Dilynwyr cyfartalog | Cyrhaeddiad cyfartalog | Argraffiadau cyfartalog | Ymgysylltiadau cyfartalog |
|---|---|---|---|---|
| Facebook | 7,582 | 196,417 | 2,432,020 | 28,936 |
| Twitter | 9,372 | Amherthnasol | 302,974 | 14,231 |
| Instagram | 2,945 | 40,720 | 303,265 | 5,541 |

- Facebook yw'r platfform mwyaf poblogaidd a chan hwnnw mae'r cyrhaeddiad a'r argraffiadau cyfartalog uchaf.
- Ar Twitter gan sefydliadau'r nifer uchaf o ddilynwyr ac ymgysylltiadau.
- Mae gan Instagram nifer llai o ddilynwyr na Gweplyfr na Thrydar, ond mae'n cynhyrchu cyfradd ymgysylltu cryf ar gyfartaledd (**3.2%**).


## Defnydd o'r wefan

- Prif nodweddion gwefannau Portffolio Celfyddydol Cymru yw cynnwys artistig, cynnwys fideo a chynnwys addysgol.
- Y prif resymau dros ymweld â gwefannau Portffolio Celfyddydol Cymru yw gwerthu tocynnau, cynnwys artistig ac 'arall'.

# Sgyrsiau a holi ac ateb

- Yn 21-22, roedd **353** o sgyrsiau a sesiynau holi ac ateb (**-12%** o'i gymharu â 20-21 a **–40%** o'i gymharu â 19-20).
- Roedd **95,518** o fynychiadau (**+37%** ers 20-21 a **+181%** o'i gymharu â 19-20).
- Roedd llai o sgyrsiau wyneb yn wyneb a sesiynau holi ac ateb yn 21-22 (**5%** o'r gweithgarwch o'i gymharu â **10%** yn 20-21), gan awgrymu newid tymor hir i ddigidol.
- Roedd nifer y sgyrsiau Cymraeg a sesiynau holi ac ateb bron wedi dyblu (**14%** o weithgarwch o'i gymharu â **7%** yn 20-21).

Sgyrsiau a sesiynau holi ac ateb o'u cymharu yn ôl iaith 21/22 o'u cymharu â 20/21 o'u cymharu â 19/20







Canolfan Mileniwm Cymru,
Cydweithwyr Creadigol

# Cyflogaeth

- Yn gyffredinol ar draws pob sefydliad ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, roedd **2,188** o weithwyr (**+2.2%**). Mae'r ffigwr hwn yn parhau'n is na chyn y pandemig (**2,403** ym 19-20).
- Cynyddodd nifer y gweithwyr sydd â nodweddion gwarchodedig ym mhob grŵp heblaw am weithwyr trawsrywiol (**-66%**).
- Roedd y cynnydd mwyaf flwyddyn ar flwyddyn yn nifer y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn LHD (**+74%** o **163** i **283**).




## Gwirfoddolwyr

- Yn y flwyddyn ariannol 21-22, gwirfoddolodd **1,235** o bobl mewn sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru (**+34.6%**). Mae'r ffigwr hwn bron yn ddwbl yr hyn yr oedd yn y cyfnod cyn y pandemig (**705** ym 19-20).
- Roedd y mwyafrif (61%) o wirfoddolwyr yn fenywod, gyda chyfran fawr o bobl dros 50 oed (39%).

## Gweithwyr llawrydd**

- Roedd cyfanswm y gweithwyr llawrydd yn **2,808**, dros un rhan o bump (21%) ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

## Cyrff Llywodraethol

- Roedd 569 o bobl yn eistedd ar fyrddau rheoli (**+66%**). Mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r hyn yr oedd yn y cyfnod cyn y pandemig (**355** yn 19-20).
- Roedd dros draean (**35%**) o'r ymddiriedolwyr yn siarad Cymraeg.

*Dyma'r flwyddyn gyntaf yr ydym ni'n casglu data am weithwyr llawrydd felly nid yw'n bosibl.

**Ni chawsom ddata am gyflogaeth, gweithwyr llawrydd, gwirfoddolwyr na chorff llywodraethol gan un sefydliad yn y Portffolio, felly mae hyn yn cynnwys cyfanswm o 66 sefydliad yn y Portffolio.

# Hyfforddiant, gweithdai neu ddigwyddiadau

## Trosolwg

- Yn 21-22, nodwyd bod **656** o brosiectau (**+11%** ers 20-21 a **+12%** o'i gymharu â 19-20) yn hyfforddiant, gweithdai neu ddigwyddiadau.
- Roedd hyn yn cynnwys 5,182 o sesiynau a 160,298 o gyfranogwyr/ mynychwyr/ derbynwyr cylchlythyrau.

## Iaith

- Cynhaliwyd **116** sesiwn yn Gymraeg.
- Mae'r ganran o brosiectau sy'n digwydd yn Saesneg neu 'arall' wedi cynyddu, tra bod y ganran ddwyieithog, amlieithog a Chymraeg wedi lleihau flwyddyn ar flwyddyn.

## Platfform

- Roedd dros hanner (**58%**) o brosiectau'n rhai digidol byw, ac yna wyneb yn wyneb (**34%**) a digidol wedi'i recordio o flaen llaw (**8%**).
- Roedd prosiectau wyneb yn wyneb wedi cynyddu **30%** flwyddyn ar flwyddyn.



*Dim Byd 'tha Chdi,*
Fran Wen a Ifan James

# Ymgysylltu â grwpiau


## Sesiynau cyfranogol

- O dan ddegfed ran (**7%**) o'r holl sesiynau cyfranogol sy'n ymwneud â grwpiau penodol (dim newid flwyddyn ar flwyddyn).
- Teuluoedd oedd y grŵp a oedd yn ymgysylltu fwyaf (**606** o brosiectau, **+38%** flwyddyn ar flwyddyn), ac yna pobl ddigartref (**430**, **+17%**) a phobl anabl (351, **+45%**).
- Prosiectau i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg oedd **1%** o'r holl brosiectau cyfranogol.


## Digwyddiadau

- Roedd tua chwarter (**24%**) o'r holl ddigwyddiadau wedi'i anelu at ymgysylltu â grwpiau penodol (**-36%** flwyddyn ar flwyddyn).
- LHD oedd y grŵp a oedd yn ymgysylltu fwyaf (**510** o brosiectau, **+97%**), ac yna blant a phobl ifanc (**330**, **+197%**) a theuluoedd (**311**, **+106%**).
- Prosiectau wedi'u hanelu at ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg oedd **2%** o'r holl brosiectau.
- Celfyddydau a Iechyd a NEET oedd yr unig ddau grŵp a oedd yn ymgysylltu llai o flwyddyn i flwyddyn.

Sesiynau cyfranogol sy'n ymgysylltu â grŵp 21/22 o'u cymharu â 20/21





Digwyddiadau ymgysylltu â grŵp 21/22 o'u cymharu â 20/21



# Y Gymraeg


## Sesiynau

- Ym mhob maes ond ym maes teithio gwaith, mae nifer y sesiynau Cymraeg wedi gostwng ers 20-21.
- Cynhyrchwyd bron i draean (**31%**) o'r holl Gynyrchiadau Teithiol yn Gymraeg (**-5%**).
- Y maes gyda'r ganran isaf o allbwn Cymraeg oedd Dangosiadau Ffilm (1%).
- Dangosodd y Lleoliadau Cyflwyno y cwymp mwyaf yn y sesiynau Cymraeg (**-10%**).




## Mynychu

- Ym mhob maes ond un, mae mynychu Cymraeg wedi gostwng ers 20-21.
- Y gyfran uchaf o fynychu Cymraeg oedd plant a phobl ifanc (**10%**), sydd hefyd yn dangos y cwymp Cymraeg mwyaf flwyddyn ar flwyddyn (**-10%**).
- Y maes gyda'r ganran isaf o fynychu Cymraeg oedd Hyfforddiant, Gweithdai a Digwyddiadau (**1%**).
- Mae nifer y prosiectau sy'n targedu siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu gan draean flwyddyn ar flwyddyn (**+33%**).




*Nid yw'r siart yn dangos mynychiadau arddangosfeydd i'r Gymraeg, gan nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu.

# Amgylchedd

## System Monitro Amgylcheddol

- Mae gan ychydig o dan draean o sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru (**29%**) System Monitro Amgylcheddol (**+7% flwyddyn ar flwyddyn**), Y Ddraig Werdd gan amlaf (**32%**).

- **53%** o sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru System Monitro Amgylcheddol eto ond maent yn anelu at sefydlu un — Y Ddraig Werdd gan amlaf (**22%**).

- **10%** o sefydliadau yn anelu at sefydlu System Monitro Amgylcheddol — y rhesymau mwyaf cyffredin yw maint ac incwm y sefydliad, gweithredu fel rhan o sefydliad.

## Polisi amgylcheddol

- **85%** o sefydliadau yn bolisi amgylcheddol ar hyn o bryd.

- Mae sawl sefydliad yn y broses o ddatblygu polisi ar hyn o bryd neu'n aros am ardystiad.



Carlos Bunga, *Terra Firma*, Oriel Gelf Glynn Vivian, (Llun: Polly Thomas)

# Y Coronafeirws

## Effaith ar sefydliadau

- Nododd dwy ran o dair (**64%**) o sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru effaith 'arall' gan y pandemig (gan gynnwys ar eu gallu a'u hincwm, canslo, costau ychwanegol a phroblemau cynllunio, **+6%** flwyddyn ar flwyddyn).

- Tynnodd traean (**36%**) o sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru sylw at effaith y pandemig ar staff (gan gynnwys dyletswyddau ychwanegol, pwysau'r cyfyngiadau a phroblemau recriwtio, **-33%**).

- Dywedodd degfed ran (**12%**) eu bod wedi gorfod ad-dalu tocynnau i aelodau o'r gynulleidfa.

## Rhoi gweithwyr ar seibiant

- Dywedodd tua hanner (**51%**) o sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru eu bod wedi rhoi staff ar seibiant yn ystod 6 mis cyntaf 2021-22 (gan gynnwys staff ar seibiant llawn a hyblyg).



The Clockwork Crow,
Volcano Theatre Company, 2021




Opera Canolbarth Cymru, *La Bohème*,
(Llun: Matthew Williams Ellis)